

# DWEUD EICH DWEUD YNGHYLCH CAIS CYNLLUNIO

## CYFLWYNIAD

1. Gallwch chi gael dweud eich dweud ynghylch cais cynllunio drwy:-
  - anfon llythyr neu e-bost at yr Adran Gynllunio. Mae'n bwysig eich bod yn anfon y llythyr neu'r e-bost cyn y terfyn amser am sylwadau, bydd hyn i'w weld yn yr hysbysiad ynghylch y cais.
  - gofyn i'ch cynghorydd sir lleol ysgrifennu neu siarad ar eich rhan. Gallwch gael gwybod pwy yw eich cynghorydd lleol yn ein swyddfeydd, llyfrgelloedd, ar ein gwefan [www.sirddinbych.gov.uk](http://www.sirddinbych.gov.uk) neu drwy ffonio 01824 706727. Mae 30 o'n 47 Cynghorydd yn Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio. Cofiwch na ddylai Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ddangos yn gyhoeddus eu bod wedi dod i benderfyniad ynghylch cais cynllunio cyn iddo gael ei drafod gan y Pwyllgor, oherwydd os felly ni chaniateir iddynt siarad na phleidleisio ar y cais.
2. Rydym yn galluogi'r rhai gyda diddordeb mewn cais, gan gynnwys gwrthwynebwyr, cefnogwyr, cynghorau tref a chymuned, ymgeiswyr ac asiantau i siarad yn y Pwyllgor Cynllunio, drwy ddilyn y canllawiau isod.

## Gwe-ddarlledu / Darlledu Cyfarfodydd

3. Mae'r Cyngor wedi cytuno y dylai cyfarfodydd penodol o'r Pwyllgor Cynllunio fod yn destun trosglwyddiad byw ar y we ('gweddarlledu'), neu eu cofnodi ar gyfer trosglwyddiad dilynol. Mae camerâu sefydlog wedi'u lleoli o fewn Siambr y Cyngor at y diben hwn. Bydd y Cyngor yn sicrhau, wrth wneud hynny ei fod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Bydd yr hysbysiad ar y rhaglen a Chadeirydd y cyfarfod yn ei gwneud yn glir, er yn gyffredinol nad yw ardaloedd seddau cyhoeddus yn cael eu ffilmio; gan fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal seddau cyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac at y defnydd posibl o'r delweddu hynny a rhai a recordiadau sain ar gyfer gweddarlledu a/neu ddibenion hyfforddi. Bydd y broses ar gyfer darpar siaradwyr cyhoeddus yn cael ei egluro iddynt.

## BETH I'W WNEUD OS YDYCH EISIAU SIARAD MEWN PWYLLGOR CYNLLUNIO

4. Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio sy'n rhedeg y cyfarfod a'r Cadeirydd hefyd sy'n penderfynu pwy sy'n cael gwahoddiad i siarad ac mae hynny'n amodol ar y pwyntiau isod.
5. Dim ond os yw'r cais ar agenda'r Pwyllgor y gallwch siarad. Penderfynir ar lawer o geisiadau gan Swyddogion o dan hawliau dirprwyedig, er y telir sylw i unrhyw sylwadau a wneir ynghylch y cais wrth benderfynu.
6. Dim ond un aelod o'r cyhoedd all siarad o blaid cais a dim ond un yn erbyn. Gall Cadeirydd y Pwyllgor ymarfer ei ddisgresiwn i ganiatáu ail siaradwr, ond dim ond o dan amgylchiadau eithriadol pan, er enghraifft, fydd cais mawr yn arwain at lawer o wahaniaeth barn.
7. Rhaid i chi hysbysu'r adain cynllunio am eich cais i siarad drwy ysgrifennu at neu e-bostio'r Uwch Swyddog Cefnogaeth Weinyddol, Judith Williams, ffôn: 01824 706726 neu e-bost: [judith.williams@sirddinbych.gov.uk](mailto:judith.williams@sirddinbych.gov.uk) neu drwy gysylltu ag aelod arall o staff yr Adain Gynllunio ar 01824 706727 neu e-bostio [cynllunio@sirddinbych.gov.uk](mailto:cynllunio@sirddinbych.gov.uk). Dylech wneud hyn cyn gynted ag y bo modd cyn cyfarfod y pwyllgor ond byth ddim hwyrach na 4.30pm ar y dydd Llun cyn y dydd Mercher pan gynhelir y Pwyllgor Cynllunio. Cofiwch adael eich rhif ffôn yn ystod y dydd fel y gallwn gysylltu â chi os bydd angen.
8. Os yw nifer o bobl yn dymuno siarad o blaid neu yn erbyn cais, dylent gytuno ymlaen llaw pwy fydd y llafarydd a rhoi gwybod i Adain Gynllunio'r Cyngor. Byddai'n hwyluso'r trefniadau pe byddech yn caniatáu i ni roi eich manylion cyswllt i bobl eraill (o'r un farn) sy'n gofyn am siarad, er mwyn eich helpu i ddewis llafarydd. Gallai fod yn gynrychiolydd o gyngor tref neu gymuned, a allai gyflwyno orau farn y rhai â diddordeb. Pe na ellid cytuno, dim ond y person cyntaf i hysbysu'r Cyngor Sir, yn ôl y drefn uchod, a gaiff siarad.

9. Dylid cofio fod llawer o Gynghorwyr Tref a Chymuned hefyd yn Gynghorwyr Sir a bod ganddyn nhw hawl yn barod i siarad mewn Pwyllgor Cynllunio. Ni fydd Cynghorwyr Sir yn gymwys i siarad o dan y cynllun hwn, ond yn unol â Rheolau Sefydlog y Pwyllgor Cynllunio.
10. Os bydd sawl un yn dymuno siarad ynghylch cais, gan gynnwys yr ymgeisydd, yna dim ond yr ymgeisydd gaiff siarad. Fodd bynnag, os nad yw'r ymgeisydd yn dymuno siarad, yna dylid dewis llefarydd fel yr amlinellwyd eisoes.
11. Sylwer bod 25 sedd ar gael yn yr Oriel Gyhoeddus gan gynnwys 3 i'r wasg. Unwaith y llenwir y seddi hyn, oherwydd y Rheoliadau Tân ni allwn ganiatáu i unrhyw un sefyll yn Siambr y Cyngor. Rydym angen cymaint o rybudd â phosibl i drefnu bod ystafelloedd cyfagos ar gael.
12. Byddwn yn cysylltu cyn y cyfarfod, ar y ffôn, yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, gyda'r rhai sy'n gofyn am gael siarad i ddweud yr ystyrir y cais gan Bwyllgor penodol. Gwneir hyn dros y ffôn, yn ysgrifenedig neu trwy e-bost cyn y cyfarfod.
13. Mae gennych hawl i gysylltu â'r Cynghorwyr yn ysgrifenedig cyn diwrnod y cyfarfod a byddai'n dda i chi anfon copiâu o unrhyw ohebiaeth at Judith Williams ar yr un pryd. Ni fyddwch yn gallu dosbarthu dogfennau neu ohebiaeth yn y cyfarfod oherwydd byddai hi'n rhy hwyr i dderbyn gwybodaeth o'r fath. Ni chaniateir i siaradwyr arddangos deunydd ychwanegol yn ystod eu cyflwyniad chwaith.
14. Rhaid i bob siaradwr fynychu'r Pwyllgor Cynllunio (a gynhelir fel arfer yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun fel arfer) a chyflwyno eu hunain i un o'r Swyddogion yn y dderbynfa cyn 9.15am. Mae'r cyfarfodydd yn dechrau am 9.30am ar ddydd Mercher mewn cylch o bedair wythnos. Mae manylion dyddiadau a lleoliadau'r Pwyllgor Cynllunio ar gael ar wefan y Cyngor Sir <http://planning.denbighshire.gov.uk> (o dan yr A-Y o dan P neu C). Gallwch hefyd gadarnhau dyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio drwy gysylltu â'r Swyddfa Cynllunio. Newidir trefn yr agenda i ganiatáu ystyried ceisiadau sy'n cynnwys siaradwr cyhoeddus ar ddechrau'r cyfarfod.
15. Fel arfer y person(au) sy'n siarad yn erbyn y cais fydd yn siarad gyntaf a'r rhai o blaid yn ail. Pan wahoddir chi i siarad gan Gadeirydd y Pwyllgor, dim ond unwaith y cewch wneud hynny a dim ond am hyd at dri munud ar yr eitem sydd o ddiddordeb penodol i chi. Cedwir at y cyfnod tri munud yn gaeth.
16. Dylech ganolbwyntio ar y pwyntiau allweddol sydd o bryder i chi gan y bydd crynodeb yn barod o bob pwynt yn yr ohebiaeth yn yr adroddiad i'r Pwyllgor. Dylech ganolbwyntio ar y materion cynllunio perthnasol.  
Gall y rhain gynnwys:
  - Polisiau cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol
  - Ymddangosiad a chymeriad y datblygiad, gosodiad a dwysedd
  - Traffig, diogelwch priffordd a pharcio/gwasanaethu
  - Cysgodi, Goruchwylio, Aflonyddwch sŵn, arogl neu golli amwynder arall
17. Dylai siaradwyr osgoi cyfeirio at faterion y tu allan i gyfrifoldeb y Pwyllgor Cynllunio fel:
  - Dadleuon ffiniau, cyfamod a hawliau eiddo eraill
  - Sylwadau personol i gynnwys sylwadau am unigolyn arall, camau hyd yma, cefndir teuluol, ethnigrwydd ac ati
  - Hawliau i weld neu ddibrisio eiddo
18. Gall y Cadeirydd fynnu eich bod yn stopio siarad os byddwch yn dweud rhywbeth sydd, neu a ellid ei ystyried, yn enllibus neu'n groes i ddeddfwriaeth cyfle cyfartal.
19. Pan fyddwch wedi siarad, gofynnir i chi adael y gadair sy'n cael ei chadw ar gyfer siaradwyr o'r cyhoedd. Ni ofynnir cwestiynau i chi ac ni allwch ofyn unrhyw un i'r Pwyllgor na Swyddogion Yna, mae'n rhaid i chi adael i'r mater gael ei drafod gan y Pwyllgor Cynllunio a pheidio ag ymuno yn y ddatl.

**NI CHANIMATEIR TYNNU LLUNIAU FFOTOGRAFF YN YSTOD TRAFODAETH YN SIAMBR Y CYNGOR. OS GWNEWCH HYNFY GOFYNNIR I CHI ADAEL Y SIAMBR. HEFYD GOFYNNIR I CHI DDIFFODD EICH FFÔN SYMUDOL CYN GYNTED Â PHOSIB AR ÔL MYND I MEWN I SIAMBR Y CYNGOR GAN EU BOD YN AMHARU AR EIN HOFFER CYFIEITHU.**

**DYLECH HEFYD FOD YN YMWBODOL BOD TRAFODAETHAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO YN CAEL EU FFILMIO A'U DARLLEDU'N FYW AR [WWW.SIRDDINBYCH.GOV.UK](http://WWW.SIRDDINBYCH.GOV.UK)**